**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir Cyfarfod Blynyddol yr AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU ddydd Llun 19 MEHEFIN 2017 yn Siambr y Cyngor, Cyngor Sir Ddinbych, RHUTHUN, LL15 1YN am 10.30am.**

Yn gywir

Colin Everett
Clerc

## AGENDA

**1 Ymddiheuriadau**

**2 Penodi Cadeirydd 2017/18**

**3 Penodi Dirprwy Gadeirydd 2017/18**

**4 Penodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio 2017/18**

**5 Rhybudd o Faterion Brys**

Rhybudd o eitemau y dylid ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

**6 Cofnodion o gyfarfod blynyddol yr Awdurdod 20 Mehefin 2016**

**7 Materion yn Codi**

**8 Aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub**

**9 Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol**

**10 Penodiadau i'r Pwyllgor Safonau**

**11 Penodiadau i'r Bwrdd Pensiwn Lleol**

**12 Dyddiadau Cyfarfodydd 2017/18**

**13 Gweddarlledu**

**14 Materion Brys**

Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 4 uchod.

**15 <u>RHAN II</u>**

**Dim busnes i'w drafod**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 20 Mehefin 2016 yn Siambr Cyngor Sir Ddinbych, Rhuthun. Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am.

**PRESENNOL**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| B Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| A Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J G Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| M Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| A M Jones | Cyngor Gwynedd |
| R O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D A Macrae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| H McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| P Prendergast | Cyngor Sir Ddinbych |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G G Williams | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân) a Thrysorydd dros dro yr Awdurdod); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); R Simmons a R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); G W Griffiths (Uwch Reolwr Hyfforddiant a Datblygu); G Brandrick (Rheolwr Safonau Proffesiynol y Gwasanaeth); K Roberts (Uwch Reolwr Gweithrediadau); S Millington (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); S Roberts (Pennaeth Cyfleusterau); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau) a S Jones (Cynorthwyydd Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| Y Cynghorydd | Yn cynrychioli |
|---|---|
| B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| T A Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| C Hughes | Cyngor Gwynedd |
| W R Owen | Cyngor Gwynedd |
| D Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

1 PENODI CADEIRYDD 2016/17

1.1 Gofynnodd y Dirprwy Glerc am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd yr Awdurdod am flwyddyn ddinesig 2016/17.

1.2 Cynigiodd y Cynghorydd A I Dunbar enw'r Cynghorydd M Ll Davies ac eiliwyd hyn gan nifer o aelodau. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiad arall.

1.3 **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am y flwyddyn ddinesig 2016/17.**

Diolchodd y Cynghorydd M Ll Davies i'r Aelodau am eu cefnogaeth a'u hyder ynddo ac aeth ymlaen i gadeirio'r cyfarfod.

2 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD 2016/17

2.1 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau am swydd Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod am y flwyddyn ddinesig 2016/17.

2.2 Cynigiodd y Cynghorydd P Shotton enw'r Cynghorydd P R Lewis ac eiliwyd hyn gan nifer o'r aelodau. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiad arall.

2.3 **PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Peter R Lewis yn Ddirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am flwyddyn ddinesig 2016/17.**

3 PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO

3.1 Gofynnodd y Cadeirydd am enwebiadau ar gyfer swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2016/17.

3.2 Ar gyfer swydd y Cadeirydd, cynigiodd y Cynghorydd G Lowe enw'r Cynghorydd J R Skelland ac eiliwyd hyn gan nifer o'r aelodau. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiad arall.

3.3 Ar gyfer swydd y Dirprwy Gadeirydd, cynigiodd y Cynghorydd P R Lewis enw'r Cynghorydd D A MacRae ac eiliwyd hyn gan nifer o'r aelodau. Ni chynigiwyd unrhyw enwebiad arall.

3.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) ethol y Cynghorydd J Rodney Skelland yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2016/17;**

**(ii) ethol y Cynghorydd Delyth MacRae yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2016/17.**

4 RHYBUDD O FATERION BRYS

4.1 Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr un eitem wedi ei chyflwyno i'r Clerc i'w hystyried.

5 COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL DIWETHAF

5.1 Cyflwynwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 15 Mehefin 2015 i'w cymeradwyo.

5.2 Nid oedd unrhyw faterion i'w codi.

5.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion.**

6 COD YMDDYGIAD AELODAU

6.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc yr adroddiad a roddai wybod i'r Aelodau am y ddeddfwriaeth ddiwygiedig sy'n effeithio ar y cod ymddygiad enghreifftiol cenedlaethol ar gyfer yr aelodau a'r gyfundrefn foesegol. Mae adran 51 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu unrhyw god ymddygiad cenedlaethol a wnaed yn unol ag adran 50 o'r Ddeddf honno cyn pen 6 mis ar ôl i'r ddeddf ddod i rym. Felly mae'n rhaid i'r Awdurdod unai fabwysiadu hwnnw neu wneud diwygiadau i'w god presennol.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a chytuno i fabwysiadu'r cod ymddygiad diwygiedig ar gyfer aelodau ac aelodau cyf-etholedig.**

7 AELODAETH YR AWDURDOD TÂN AC ACHUB

7.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i gadarnhau penodiadau aelodau'r Awdurdod a chyfansoddiad aelodaeth yr Awdurdod llawn ar gyfer 2016/17. Nodwyd fod y Cynghorydd P R Lewis yn aelod o Grwp Cyntaf Annibynnol Conwy a bod y Cynghorydd J Vaughan yn aelod o'r Grwp Annibynnol.

7.2 **PENDERFYNWYD nodi aelodaeth yr Awdurdod am 2016/17.**

8 PENODIADAU I BWYLLGORAU A CHYRFF ALLANOL

8.1 Diben yr adroddiad oedd gwahodd yr Awdurdod i benodi aelodaeth pwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

8.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) peidio â gweithredu'r egwyddor cydbwysedd gwleidyddol i'r Pwyllgorau;**
**(ii) aelodaeth y pwyllgorau fel a ganlyn:**

**Panel Gweithredol**

| **Aelod** | **Awdurdod Cyfansoddol** |
|---|---|
| Meirick Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Peter R Lewis (Dirprwy Gadeirydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Lewis Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Richard Owain Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Roger Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

| | |
|---|---|
| Bill Cowie | Cyngor Sir Ddinbych |
| Martyn Holland | Cyngor Sir Ddinbych |
| Brian Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Hilary McGuill | Cyngor Sir y Fflint |
| William Roy Owen | Cyngor Gwynedd |
| William Tudor Owen | Cyngor Gwynedd |
| T Alan Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geoff Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Pwyllgor Archwilio**

| **Aelod** | **Awdurdod Cyfansoddol** |
|---|---|
| Jim Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Delyth MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Adrian Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Joan Vaughan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Pete Prendergast | Cyngor Sir Ddinbych |
| Ian Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| Owen Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| David Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| Chris Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Aeron M Jones | Cyngor Gwynedd |
| Gethin Glyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Anne Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J Rodney Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| David Taylor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**(iii) penodi cynrychiolwyr i gyrff allanol fel y nodir isod:**

| | |
|---|---|
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân â'r Gweinidog Tân ac Achub | Cadeirydd |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Cadeirydd |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | Un cynrychiolydd ar ran y tri ATA |
| Panel Gwasanaethau Tân WLGA | Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol | Cadeirydd |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Cadeirydd |
| Pwyllgor Materion Cenedlaethol | Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |

9 DYDDIADAU CYFARFODYDD 2016/17

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad i hysbysu Aelodau am ddyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd yn 2016/17.

9.2 Gofynnodd y Cynghorydd P R Lewis a fyddai'n bosib newid dyddiadau cyfarfodydd y Panel Gweithredol ym misoedd Chwefror a Mai er mwyn galluogi cynrychiolwyr CBS Conwy i fynychu rhain gan fod ganddynt gyfarfodydd eraill ar y dyddiadau sydd wedi'u pennu yn yr adroddiad.

9.3 **PENDERFYNWYD**

**(i)** **dirprwy awdurdod i'r Clerc â'r Cadeirydd i gytuno dyddiadau newydd ar gyfer cyfarfodydd Panel Gweithredol misoedd Chwefror a Mai 2017:**

**Cyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Dydd Llun 19 Medi 2016 – Sir Ddinbych
Dydd Llun 19 Rhagfyr 2016 – Sir y Fflint
Dydd Llun 20 Mawrth 2017 – Wrecsam
Dydd Llun 19 Mehefin 2017 - Conwy

**Cyfarfodydd Panel Gweithredol i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub am 10am**

Dydd Llun 18 Gorffennaf 2016
Dydd Llun 24 Hydref 2016

**Cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub am 2pm**

Dydd Llun 12 Medi 2016
Dydd Llun 30 Ionawr 2017
Dydd Llun 5 Mehefin 2017

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru- Cyfarfod Blynyddol** |
| Rhif adroddiad | **FRA(AM)2017/06/08** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Aelodaeth yr Awdurdod Tân ac Achub** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Nodi penodiad aelodau'r Awdurdod fel y cyflwynwyd gan y cynghorau cyfansoddol ar gyfer tymor llawn yr Awdurdod o 2017 hyd at 2022.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Nodi penodiad aelodau'r Awdurdod fel y cyflwynwyd gan y cynghorau cyfansoddol ar gyfer tymor llawn yr Awdurdod o 2017 hyd at 2022.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi aelodaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn unol â'r hyn a nodir uchod.

**CEFNDIR**

4 Yn dilyn etholiadau'r awdurdodau lleol ym Mai 2017, gwahoddwyd y cynghorau cyfansoddol i gyflwyno eu penodiadau i wasanaethu fel cynrychiolwyr ar yr Awdurdod Tân ac Achub am y cyfnod llawn o bum mlynedd tan yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2022.

**GWYBODAETH**

5 Mae'r cynghorau canlynol wedi penodi eu cynrychiolwyr am y tymor o bum mlynedd, 2017-2022, yn amodol ar unrhyw newidiadau i'r cydbwysedd gwleidyddol yn ystod y tymor. Dyma eu henwebiadau:

**Sir y Fflint** (6 aelod)
Cynghorydd Marion Bateman (Annibynnol)
Cynghorydd Ian Dunbar (Llafur)
Cynghorydd Veronica Gay (Cynghrair Annibynnol)
Cynghorydd Paul Shotton (Llafur)
Cynghorydd Owen Thomas (Ceidwadwyr)
Cynghorydd David Wisinger (Llafur)

**Gwynedd** (5 aelod)
Cynghorydd Annwen Daniels (Plaid Cymru)
Cynghorydd Simon Glyn (Plaid Cymru)
Cynghorydd John Brynmor Hughes (Annibynnol)
Cynghorydd I Dilwyn Lloyd (Annibynnol)
Cynghorydd Gethin Glyn Williams (Plaid Cymru)

**Wrecsam** (5 aelod)
Cynghorydd Bryan Apsley (Llafur)
Cynghorydd Geoff Lowe (Annibynnol)
Cynghorydd Paul H Pemberton (Annibynnol)
Cynghorydd Rondo Roberts (Annibynnol)
Cynghorydd J Rodney Skelland (Ceidwadwyr)

**Ynys Môn** (3 aelod)
Cynghorydd Richard Griffiths (Annibynnol)
Cynghorydd Eric Wyn Jones (Annibynnol)
Cynghorydd Dylan Rees (Plaid Cymru)

**Sir Ddinbych** (4 aelod)
Cynghorydd Brian Blakeley (Llafur)
Cynghorydd Ann Davies (Ceidwadwyr)
Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Plaid Cymru)
Cynghorydd Peter Evans (Annibynnol)

**Conwy** (5 aelod)
Cynghorydd Peter Lewis (Grwp Annibynnol Cyntaf Conwy)
Cynghorydd Roger Parry (Ceidwadwyr)
Cynghorydd Adrian Tansley (Llafur)
Cynghorydd Susan Louise Lloyd-Williams (Plaid Cymru)
Cynghorydd Nigel Smith (Annibynnol)

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae disgwyl i aelodau ddilyn eu cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir pob agwedd fel mater o drefn |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Rhif adroddiad | **FRA(AM)2017/06/09** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodiadau i Bwyllgorau a Chyrff Allanol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Diben yr adroddiad yw cynnig bod yr Awdurdod yn penodi aelodau i bwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol, gan gynnwys cynrychiolydd i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Diben yr adroddiad yw cynnig bod yr Awdurdod yn penodi aelodau i bwyllgorau mewnol a rhai amrywiol allanol, gan gynnwys cynrychiolydd i'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**ARGYMHELLION**

3 Argymhellir bod yr Awdurdod yn:
- (i) ystyried cymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol i Bwyllgorau;
- (ii) ystyried penodiadau i'r Panel Gweithredol, Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Safonau fel yr amlinellir yn yr adroddiad; a
- (iii) penodi cynrychiolwyr i'r cyrff allanol fel a nodir ym mharagraff 6.

**CEFNDIR**

4 Mae gan yr Awdurdod gyfres o bwyllgorau y gwneir penodiadau iddynt yn y cyfarfod cyntaf neu'r cyfarfod blynyddol. Mae'r rhain wedi eu nodi isod.

5 Yn y gorffennol, mae'r Awdurdod wedi penderfynu peidio â chymhwyso cydbwysedd gwleidyddol i aelodaeth ei Bwyllgorau o dan Reol 20 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990. Edrychwyd ar y mater hwn eto yn ystod adolygiad cyfansoddol yng nghanol 2008-09. Y consensws cyffredinol oedd na fyddai cydbwysedd gwleidyddol yn fuddiol gan fod y trefniadau presennol yn gynhwysol ac yn osgoi creu 'rhaniad gwleidyddol' yn llywodraethiad yr Awdurdod.

6 Cynrychiolir yr Awdurdod ar y cyrff canlynol:

| | |
|---|---|
| Grŵp Cyswllt Cadeiryddion a Phrif Swyddogion Tân Gweinidogol Tân ac Achub | Y Cadeirydd fel arfer |
| Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) | Y Cadeirydd fel arfer |
| Pwyllgor Cydlynu WLGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Panel Gwasanaethau Tân WLGA | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) | Y Cadeirydd fel arfer |
| Fforwm Gwasanaethau Tân LGA | Un cynrychiolydd o'r Tri Gwasanaeth Tân ac Achub |
| Pwyllgor Materion Cenedlaethol | Y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd |

**GWYBODAETH**

7 Gwneir penodiadau i'r pwyllgorau canlynol:-

- Panel Gweithredol (14 aelod)
- Pwyllgor Archwilio (14 aelod)
- Pwyllgor Safonau (2 aelod) (dim angen cydbwysedd gwleidyddol o dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001) (gweler adroddiad ar wahân ar yr agenda).

8 Mae cylchoedd gwaith y pwyllgorau, os ydynt yn bodoli, wedi eu cynnwys yn y Cyfansoddiad.

9 O ystyried bod rhaid i awdurdodau cyfansoddol gymhwyso'r egwyddor o gydbwysedd gwleidyddol ar eu pwyllgorau nhw (heblaw yn achos cabinetau), anogir awdurdodau i enwebu aelodau i'r Awdurdod hwn ar sail cydbwysedd gwleidyddol. Dylai'r Awdurdod ei hun ystyried yn flynyddol a yw'n dymuno cymhwyso cydbwysedd gwleidyddol, gan nodi'r sylwadau sydd ym mharagraff 3 uchod. Petai'r Awdurdod yn cymhwyso'r egwyddor hon, dylid gwneud penodiadau i bwyllgorau sy'n sicrhau bod gan yr holl awdurdodau cyfansoddol gynrychiolaeth ddigonol.

10 Mae'r Panel Gweithredol yn cynnwys 14 aelod, sef Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod a dau aelod o bob awdurdod cyfansoddol. Mae'r aelodaeth yn cynrychioli 50% o aelodaeth yr Awdurdod. Estynnwyd swyddogaeth ac aelodaeth o'r Panel yn yr adolygiad cyfansoddol yn ystod 2008-09.

11 Cytunodd yr Awdurdod i gyflwyno Pwyllgor Archwilio i adolygu, craffu a sicrhau perfformiad gweithredol ac ariannol y sefydliad, yn annibynnol ar y Panel Gweithredol. Aelodaeth y Pwyllgor yw'r 50% o'r aelodau sydd heb eu penodi ar y Panel Gweithredol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyranwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

**PANEL GWEITHREDOL**

| **Aelod** | **Awdurdod Cyfansoddol** |
|---|---|
| Cadeirydd | |
| Dirprwy Gadeirydd | |
| Richard Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Eric Wyn Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Paul Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Rondo Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Veronica Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Gwynedd |
| | Cyngor Gwynedd |

Mae aelodaeth y Gweithgor Cynllun Gwella yr un fath ag aelodaeth y Panel Gweithredol.

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

| **Aelod** | **Awdurdod Cyfansoddol** |
|---|---|
| Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Geoff Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J Rodney Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Ian Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| Paul Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| Owen Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| David Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Sir Ddinbych |
| | Cyngor Gwynedd |
| | Cyngor Gwynedd |
| | Cyngor Gwynedd |

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Rhif adroddiad | **FRA(AM)2017/06/10** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Aelodau'r Awdurdod Tân ac Achub i Wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

6 Penodi dau aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

7 Penodi dau aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

**ARGYMHELLION**

8 Bod yr Awdurdod yn penodi dau aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau hyd yr etholiadau cyffredinol nesaf.

**CEFNDIR**

9 O dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, mae'n ofynnol bod gan yr Awdurdod Tân ac Achub Bwyllgor Safonau. Mae pedwar aelod annibynnol ar y pwyllgor.

10 Mae dau o'r aelodau annibynnol sydd ar y Pwyllgor yn byw yn Sir Ddinbych a'r ddau aelod arall yn byw yng Nghonwy. Mae'r aelodau'n cynnwys dau ddyn a dwy fenyw ac mae un o'r dynion yn siarad Cymraeg.

11 Gellir penodi unrhyw aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub, ar wahân i'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd, i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.

12 O dan Reoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001, nid yw'r gofynion o safbwynt cydbwysedd gwleidyddol, a nodir yn Rhan I Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, yn berthnasol ar gyfer y penodiadau hyn.

**CYNGOR**

13 Mae unrhyw un o'r aelodau, ar wahân i'r Cadeirydd neu'r Dirprwy Gadeirydd, yn gymwys ar gyfer cael eu penodi'n aelodau o'r Pwyllgor.

14 Ni waeth pa aelod a benodir, bydd yn rhaid iddynt wasanaethu hyd yr etholiadau cyffredinol lleol ym mis Mai 2022. Bydd cyfnod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dod i ben fel a ganlyn:

- 2 aelod annibynnol – ail dymor yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2017
- 1 aelod annibynnol - ail dymor yn dod i ben ym mis Awst 2018
- 1 aelod annibynnol – ail dymor yn dod i ben ym mis Mawrth 2020
- 2 aelod o'r Awdurdod Tân - Mai 2022 (yn ddibynnol ar yr unigolion a benodir, bydd un aelod neu'r ddau yn gymwys ar gyfer cael eu hailethol i wasanaethu am dymor arall)

10 Gofynnir i Aelodau nodi fod tymor dwy aelod annibynnol yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r ddwy eisoes wedi gwasanaethu am ddau dymor ac felly ni ellir eu hail-benodi. Bydd yr Awdurdod angen hysbysebu dwy swydd a bydd yn ceisio gwneud hyn ar y cyd â chyngor sir os yn bosibl.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Rhif adroddiad | **FRA(AM)2017/06/11** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Penodi Aelodau Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar y Bwrdd Pensiwn Lleol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Penodi pedwar aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar Fwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Penodi pedwar aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i wasanaethu ar Fwrdd Pensiwn Lleol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

**ARGYMHELLIAD**

3 Gofynnir i'r aelodau:

(i) nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad;
(ii) ethol pedwar cynrychiolydd i'r bwrdd pensiwn lleol.

**CEFNDIR**

4 Sefydlwyd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn 2015 yn dilyn dyfodiad y Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 mewn perthynas â Chynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân.Mae'r rhaid cynnwys nifer gyfartal o gyflogwyr a gweithwyr cynrychiadol ar y bwrdd. O ganlyniad bydd gofyn i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru enwebu hyd pedwar o'r Awdurdod Tân i eistedd ar y bwrdd.

**GWYBODAETH**

5 Mae Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus 2013 yn darparu trefniadau llywodraethu mwy pendant ynghyd â rolau penodol diffiniedig, rhagor o wybodaeth a fydd yn cael ei gyhoeddi'n gyson, ac ymarferion gweinyddu sydd yn unol â'r rhai yn y sector breifat.

6 Y Byrddau Pensiwn Lleol fydd yn gyfrifol am helpu rheolwr y cynllun (yr Awdurdod Tân ac Achub) i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu i safon briodol ac, yn benodol, bydd yn:

- sicrhau bod cynlluniau pensiwn yn cael eu gweinyddu yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac unrhyw gyfarwyddyd gan y Rheoleiddiwr Pensiwn i'r cynllun
- cynorthwyo rheolwr y cynllun (yr Awdurdod Tân ac Achub) i sicrhau bod y cynllun pensiwn yn cael ei weinyddu'n effeithiol ac effeithlon
- meddu ar wybodaeth addas am y cynllun y mae'n helpu i'w gynnal
- sicrhau bod yr wybodaeth ar gael i aelodau'r cynllun a phartïon eraill sydd â diddordeb fel y gallant weld a deall pwy yw aelodau'r bwrdd, sut y mae aelodau'r cynllun pensiwn yn cael eu cynrychioli ar y bwrdd pensiwn a chyfrifoldebau'r bwrdd pensiwn
- atal unrhyw un rhag bod yn aelod o'r bwrdd pensiwn os oes ganddynt fuddiannau eraill a all effeithio ar eu gallu i gyflawni eu rôl.

7 Rheolwr y cynllun (yr Awdurdod Tân ac Achub) fydd yn gyfrifol am benodi aelodau i'r bwrdd pensiwn. Mae'n rhaid i reolwr y cynllun sicrhau nad oes gwrthdaro o ran buddiannau pan fydd aelod yn cael ei benodi, a thra bydd yr aelod yn gwasanaethu. Diffinnir gwrthdaro buddiannau fel buddiant ariannol neu unrhyw fudd arall sydd yn debygol o niweidio'r modd y mae'r unigolyn yn cyflawni ei swyddogaethau fel aelod o'r bwrdd pensiwn.

8 Mae Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon GTAGC ac y maent yn cael eu hariannu yn y pen draw gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Y Trysorydd sydd yn gyfrifol am ardystio'r hawliadau i Lywodraeth Cymru ac y maent yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan yr archwilwyr allanol. Byddai hefyd yn briodol pe byddai gan y Swyddog Monitro a'r Trysorydd yr hawl i fynychu neu gael eu cynrychioli yng nghyfarfodydd y bwrdd pensiwn lleol.

**Gofynion Aelodau**

9 Mae'n rhaid i aelodau bwrdd pensiwn y gwasanaeth cyhoeddus fod yn gyfarwydd â rheolau'r cynllun ac unrhyw ddogfennau sydd yn cofnodi polisi ynglŷn â gweinyddiaeth y cynllun.

10 Mae'n rhaid i aelodau feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r gyfraith mewn perthynas â phensiynau ac unrhyw faterion eraill sydd wedi eu rhagnodi yn y rheoliadau.

11 Bydd y Rheoleiddiwr yn darparu rhaglen e-ddysgu i gwrdd ag anghenion holl aelodau'r bwrdd pensiwn.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Bydd y costau presenoldeb yn dod o'r gyllideb a ddyrannwyd eisoes |
| Cyfreithiol | Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r cylch gorchwyl y cytunwyd arno.<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Cyfarfod Blynyddol** |
| Rhif adroddiad | **FRA(AM)2017/06/12** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Dyddiadau ar gyfer Cyfarfodydd 2017/18** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2017/18.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Hysbysu aelodau o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2017/18.

**ARGYMHELLIAD**

3 Argymhellir bod aelodau'n nodi dyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, Panel Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio yn 2017/18.

**CEFNDIR**

4 Cytunwyd ar ddyddiadau ar gyfer yr holl gyfarfodydd hyd Rhagfyr 2017 ym mis Rhagfyr 2016. Bydd hysbysiad ymlaen llaw o'r dyddiadau o gymorth i Aelodau a swyddogion gyda'u hamserlenni.

**GWYBODAETH**

**Awdurdod Tân ac Achub**

5 Mae Rheol Sefydlog 4(2) o Reolau Sefydlog yr Awdurdod yn nodi y dylid cynnal cyfarfodydd o'r Awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, gyda'r cyfarfod blynyddol i'w gynnal cyn ddiwedd Mehefin. Cynhelir y cyfarfodydd hyn, fel arfer, ar y trydydd dydd Llun o'r mis oni bai fod y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân yn newid hyn.

6 Dyma'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod:

Dydd Llun 18 Medi 2017
Dydd Llun 18 Rhagfyr 2017
Dydd Llun 19 Mawrth 2018
Dydd Llun 18 Mehefin 2018

**Panel Gweithredol**

7 Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Panel Gweithredol, sydd i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy am 10.00 y bore:

Dydd Llun 17 Gorffennaf 2017
Dydd Llun 23 Hydref 2017
Dydd Llun 12 Chwefror 2018
Dydd Llun 14 Mai 2018

**Pwyllgor Archwilio**

8 Dyma ddyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio, sydd i'w cynnal ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy am 2.00 y pnawn:

Dydd Llun 10 Gorffennaf 2017
Dydd Llun 11 Medi 2017
Dydd Llun 29 Ionawr 2018
Dydd Llun 4 Mehefin 2018

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Y Gyllideb | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cyfreithiol | Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â Rheolau Sefydlog ATAGC a'r cylch gorchwyl perthnasol<br>Mae disgwyl i aelodau ddilyn y cod ymddygiad bob amser |
| Staff | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Iaith Gymraeg | Mae holl gyfarfodydd yr Awdurdod Tân yn cydymffurfio â chydraddoldeb |
| Risg | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol |

*This document is available in English*

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cyfarfod Blynyddol** |
| Rhif Adroddiad | **FRA(AM)2017/06/13** |
| Dyddiad | **19/06/17** |
| Swyddog Arweiniol | **Clerc** |
| Swyddog Cyswllt | **Colin Everett (01745 535286)** |
| Pwnc | **Gweddarlledu** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Galluogi Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru i ystyried a yw'n dymuno cyflwyno gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd llawn.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Erbyn hyn, mae pob un o'r chwe cyngor cyfansoddol yn gweddarlledu cyfarfodydd eu cynghorau llawn, ac mae rhai hefyd yn gweddarlledu cyfarfodydd eraill sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes, mewn bil llywodraeth leol, wedi cynnwys gofynion i gynghorau weddarlledu eu cyfarfodydd. O'r blaen, roedd grant ar gael i gynghorau Cymru i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gweddarlledu, ond nid y costau refeniw parhaus.

3 Mae'r adroddiad yn nodi sut y byddai cyflwyno gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gweithiom ar sail yr wybodaeth a'r arbenigedd sydd eisoes gan staff ymhob un o'r awdurdodau cyfansoddol. Byddai'n rhaid i'r Awdurdod gytuno ar bolisi; trefnu i'w wefan gael ei galluogi; trwyddedu ambell feddalwedd; cael cytundeb gyda'r awdurdod lleol lle cynhelir cyfarfodydd; cael staff hyfforddedig/benthyca staff hyfforddedig o bob awdurdod.

4 Yn gysylltiedig â gweithredu gweddarllediadau, byddai rhai materion technegol, materion o ran costau, materion o ran trwyddedau meddalwedd, a materion staff. Y fantais fyddai'r posibilrwydd o ymgysylltu mwy â'r cyhoedd.

5 Gan fod cyfarfodydd yr Awdurdod yn cylchdroi, gallai cyflwyno gweddarlledu fod yn rhywbeth anymarferol a'r costau'n llawer mwy na'r manteision.

6 Os cytunir mewn egwyddor i gyflwyno gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, byddai angen gwneud gwaith pellach a chael chynllun gweithredu a chostau mwy manwl ar gyfer ei roi ar waith.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried yn flaenorol gan yr Aelodau.

## ARGYMHELLION

8 Bod yr Aelodau'n ystyried a ydynt am fwrw ymlaen â chynlluniau ar gyfer gweddarlledu.

## CEFNDIR

9 Erbyn hyn, mae pob un o'r chwe chyngor cyfansoddol yn gweddarlledu cyfarfodydd y cyngor llawn. Mae rhai awdurdodau'n gweddarlledu cyfarfodydd eraill hefyd. Yn ddiweddar, mae'r Awdurdod wedi trafod a yw am gynnig cyfleuster tebyg er mwyn i'r cyhoedd allu gweld ein cyfarfodydd.

10 Petai'r Awdurdod yn penderfynu ei fod yn dymuno bwrw ymlaen, bydd angen cael cynllun gweithredu er mwyn i weddarlledu fod yn digwydd cyn pen cyfnod penodol o amser. Byddai'n golygu cyllideb fach a chytundeb gan y chwe chyngor i ganiatáu mynediad at eu systemau, gyda chymorth gweithredwr gan y cyngor lle cynhelir y cyfarfod.

11 Efallai y bydd angen gwneud rhai addasiadau i drefniadau'r cyfarfodydd. Byddai angen cael cynlluniau seddi ymlaen llaw ar gyfer siambr pob cyngor, a byddai angen i'r aelodau a'r swyddogion gael rhywfaint o wybodaeth/hyfforddiant ynglŷn â chymryd rhan mewn cyfarfod sy'n cael ei weddarlledu.

12 Mae'r adroddiad hwn yn nodi dull ar gyfer cyflwyno gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ar sail yr wybodaeth a'r arbenigedd sydd gan staff yn yr awdurdodau cyfansoddol eisoes. Byddai'n rhaid i'r Awdurdod gytuno ar bolisi, trefnu bod ei wefan yn cael ei galluogi, trwyddedu ambell feddalwedd, cael cytundeb gyda phob awdurdod lleol, a manteisio ar staff hyfforddedig ymhob awdurdod.

13 Bydd rhai materion technegol, materion o ran costau, materion o ran trwyddedau meddalwedd a materion staffio. Y fantais fyddai'r posibilrwydd o ymgysylltu mwy â'r cyhoedd.

14 Gan fod cyfarfodydd yr Awdurdod yn cylchdroi, gallai cyflwyno gweddarlledu fod yn rhywbeth anymarferol, a'r costau'n llawer mwy na'r manteision.

15 Os cytunir mewn egwyddor i gyflwyno gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod Tân ac Achub, byddai'r swyddogion yn llunio cynllun gweithredu a chostau mwy manwl ar gyfer ei roi ar waith.

**GWYBODAETH**

16 Y ffordd fwyaf cost-effeithlon o gyflwyno gweddarlledu ar gyfer cyfarfodydd yr Awdurdod fyddai i bob awdurdod cyfansoddol, pan fyddant yn 'cynnal' y cyfarfod yn eu trefn, yn ffrydio'r cyfarfod ar eu microwefan eu hunain. Ni fyddai hyn ond yn costio'r oriau a ddefnyddir o gontract y cyngor unigol. Er hynny, oherwydd bod rhai awdurdodau eisoes yn cyfyngu ar gyfer eu cyfarfodydd eu hunain maent yn eu gweddarlledu oherwydd nifer yr oriau sy'n cael ei ganiatáu gan eu contractau nhw gyda'u darparwr gwasanaeth, efallai na fydd hyn yn bosibl. Byddai angen cael dolen o wefan yr Awdurdod Tân ac Achub i ficrowefan y cyngor unigol. Hefyd, byddai gweithredu gweddarllediad yn golygu cost i bob Awdurdod, o ran amser staff.

17 Dull arall fyddai creu microwefan newydd yn arbennig ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub. Byddai'r cyngor lle cynhelir y cyfarfod yn gallu ffrydio'r gweddarllediad i ficrowefan yr Awdurdod Tân ac Achub. Byddai hyn yn costio £600 fel cost unigol, a byddai'n dal yn defnyddio dyraniad oriau gweddarlledu'r cyngor unigol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol. |
| Cyllideb | Bydd y gost yn cael ei phennu os cytunir mewn egwyddor. |
| Cyfreithiol | Ystyrir nad yw hyn yn berthnasol. |
| Staffio | Dyrannu a hyfforddi staff. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Gallai hwyluso mwy o ymgysylltiad gan y cyhoedd mewn cyfarfodydd. Angen penderfynu sut i weddarlledu'n ddwyieithog. |
| Risgiau | Risgiau i enw da. |